**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Troseddau yn y diwydiant manwerthu**

**Dydd Mercher 10 Hydref 2018, 11:00 - 13:00: Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad |
|---|---|---|
| Janet | Finch-Saunders | AC dros Aberconwy |
| Russell | George | AC dros Sir Drefaldwyn |
| Hefin | David | AC dros Gaerffili |
| Vikki | Howells | AC dros Gwm Cynon |
| Mark | Isherwood | AC dros Ogledd Cymru |
| Rhun | ap Iorwerth | AC dros Ynys Môn |
| David | Rowlands | AC dros Ddwyrain De Cymru |
| Cara | James | Staff cymorth o swyddfa Janet Finch-Saunders |
| Tyler | Walsh | Staff cymorth o swyddfa Janet Finch-Saunders |
| James | Lowman | Cymdeithas Siopa Cyfleustra |
| Steve | Dowling | Cymdeithas Siopa Cyfleustra |
| Sara | Jones | Consortiwm Manwerthu Cymru |
| Marc | Budden | Heddlu Gwent |
| Nick | Ireland | Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (Usdaw) |
| Amy | Bainton | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Matt | Kelcher | Charity Retail Association |
| Jamie | Sanders | JTI |
| Adrian | Roper | NFRN |
| Mark | Coray | National Hairdressers Federation |
| Helen | Picton | Shared Regulatory Services |

## 1. Croeso a chyflwyniad

Agorodd Janet Finch-Saunders AC y cyfarfod gan groesawu'r rheini a oedd yn bresennol a sôn am un o'r problemau cynyddol sy'n wynebu siopau bach ledled Cymru, sef troseddau yn y diwydiant manwerthu.

Soniodd Janet am adroddiadau'r Swyddfa Gartref a'r ONS, sy'n dangos twf yn y niferoedd o achosion o ddwyn o siopau yn y sector manwerthu. Esboniodd Janet bod dwyn o siopau'n aml yn cael ei weld fel trosedd heb ddioddefwr, er gwaetha'r effaith fawr gall gael ar fanwerthwyr a'r ffaith mai dyna'r prif sbardun ar gyfer trais corfforol a cham-drin geiriol tuag at staff.

## 2. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Croesawodd Janet Finch-Saunders AC enwebiadau ar gyfer y swyddogion priodol ar gyfer y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Ail-etholwyd Janet Finch-Saunders fel Cadeirydd, a gynigiwyd gan Russell George AC a Vikki Howells AC. Ail-etholwyd staff y Gymdeithas Siopa Cyfleustra fel Ysgrifenyddiaeth y grŵp trawsbleidiol. Roedd Aelodau eraill a etholwyd i'r grŵp yn cynnwys: Vikki Howells AC fel y Dirprwy Gadeirydd, Russell George AC, Mark Isherwood AC, Hefin David AC, Rhun ap Iorwerth AC a David Rowlands AC.

## 3. Troseddau yn y diwydiant manwerthu

Rhoddodd James Lowman amlinelliad o brif ganfyddiadau adroddiad troseddu 2018 y Gymdeithas Siopa Cyfleustra (ACS), gan gynnwys ystadegau'r troseddau y mae manwerthwyr yn eu hwynebu megis y cyhoedd yn dwyn o siopau, staff yn dwyn o siopau, trais a cham-drin geiriol, lladradau a thwyll. Mae'r troseddu sy'n digwydd mewn siopau cyfleustra yn gyfwerth â threth droseddu o 7c ar gyfer pob gwerthiant yn y siop. Yn ogystal â hynny, caiff troseddau effaith gorfforol ac emosiynol fawr ar fanwerthwyr a'u cydweithwyr.

Soniodd James am adroddiad gan y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, *'Desperate for a Fix'*, sy'n canfod fod tua 70% o'r achosion o ddwyn o siopau'n cael eu cyflawni gan droseddwyr sy'n gaeth i gyffuriau. Mae'r adroddiad yn galw am 'raglen ail gyfle', sy'n rhaglen 2 flynedd o hyd ar gyfer troseddwyr sy'n gaeth i gyffuriau ac sy'n troseddu'n gyson. Mae'n rhoi cymorth i fanwerthwyr drwy wahanol gyfnodau pryd mae troseddwyr yn gwella: 'Cyfnod Diogel', 'Cyfnod Gwella Preswyl' dwys yn y Gymuned a 'Chyfnod Cymorth'. .

Anogodd James yr Aelodau Cynulliad hefyd i ofyn i'w Comisiynwyr Heddlu a Throseddu lofnodi adduned 'dwyn o siopau' y Gymdeithas Siopa Cyfleustra. Mae'r adduned 'dwyn o siopau' yn nodi bod dwyn o siopau'n drosedd y mae'n rhaid ei chymryd o ddifrif. Mae'r adduned yn cynnwys ymrwymiadau i gosbi'r rheini sy'n troseddu fwy nag unwaith, i ymateb yn brydlon pan fydd manwerthwyr yn wynebu trais, ac i wneud gwaith er mwyn gosod safonau o ran beth sy'n 'ymateb da' i achos o ddwyn o siop. **CYTUNWYD** y dylai Janet Finch-Saunders AC anfon llythyrau at gomisiynwyr yr heddlu a throseddu nad ydynt eto wedi arwyddo'r adduned 'dwyn o siopau' ar ran y grŵp trawsbleidiol.

## 4. Panel Troseddau yn y Diwydiant Manwerthu

Anogodd Janet Finch-Saunders James Lowman, Sara Jones, Nick Ireland a Marc Budden i ffurfio panel.

Dywedodd Sara ei fod yn gyfnod trawsnewidiol yn y sector manwerthu wrth i arferion prynwyr newid. Mae manwerthwyr wedi gwario swm uwch nag erioed eleni ar fesurau i atal troseddau yn y sector ac ar gostau anuniongyrchol sy'n deillio o'r troseddau hynny, er enghraifft costau staffio ychwanegol, a gaiff eu hanghofio'n aml.

Soniodd Nick am ymgyrch 'Freedom from Fear' yr Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol (Usdaw), sy'n gweithio i atal trais, bygythiadau a cham-driniaeth yn erbyn gweithwyr yn y sector. Soniodd hefyd am wythnos 'Respect for Shopworkers' Usdaw, a fydd yn cael ei chynnal ar 12 Tachwedd. Roedd yn croesawu Bil Alex Norris AS, ar ymosodiadau troseddol ar weithwyr yn y diwydiant manwerthu a'r Bil arfau ymosodol, a fydd yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl ifanc brynu'r arfau a ddefnyddir mewn ymosodiadau ag asid neu gyllyll. Daeth Nick i gasgliad nad oedd aelodau Usdaw yn adrodd digon am ymosodiadau corfforol arnynt mewn siopau, a'u bod yn ei ystyried yn rhan o'r swydd, sy'n agwedd y mae'n rhaid ei newid.

Esboniodd Marc fod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent wedi arwyddo adduned 'dwyn o siopau' y Gymdeithas Siopa Cyfleustra. Mae Heddlu Gwent, yn debyg i heddluoedd eraill, yn ceisio cymryd camau gorfodi mewn meysydd newydd, megis caethwasiaeth fodern a seiberdroseddu, sy'n cymryd llawer o adnoddau, tra bo niferoedd swyddogion yr heddlu yn lleihau. Dywedodd fod gweithio mewn partneriaeth a chreu perthnasau rhwng heddluoedd, siopau bach a busnesau yn fwy eang yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â throseddau yn y diwydiant manwerthu. Roedd Marc yn annog siopau bach i adrodd am droseddau bob tro er mwyn helpu'r heddlu i gasglu gwybodaeth ynghylch y troseddwyr ac er mwyn iddynt ddyrannu eu hadnoddau'n briodol rhwng gwahanol ardaloedd.

Gofynnodd Janet a oedd gan y rheini a oedd yn bresennol unrhyw gwestiynau i'r panel. Soniwyd am bwysigrwydd cael y camerâu cylch-cyfyng diweddaraf er mwyn bod â'r cyfle gorau i erlyn troseddwyr. Soniwyd hefyd am y twf yn nifer y nwyddau drud mewn siopau trin gwallt sydd yn cael eu dwyn mewn lladradau er mwyn eu gwerthu. Esboniodd James Lowman fod ACS yn cefnogi Lwfans Buddsoddi Troseddau Busnes, sy'n rhoi cymorth i fanwerthwyr fuddsoddi mewn mesurau diogelwch megis camerâu cylch cyfyng ac offer diogelwch arall, sydd ar hyn o bryd yn cynyddu biliau cyfraddau siopau. **CYTUNWYD** y dylai aelodau'r grŵp trawsbleidiol ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ynghylch cymell buddsoddiad drwy'r system cyfraddau busnes.

## 5. Sylwadau'r Cadeirydd i gloi

Diolchodd Janet Finch-Saunders AC i'r cynrychiolwyr am fod yn bresennol, a daeth â'r cyfarfod i ben. Anogodd Janet Finch-Saunders yr Aelodau Cynulliad eraill i ysgrifennu at eu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ynghylch yr adduned 'dwyn o siopau'.